

Mae'r cyrsiau canlynol yn cael eu cyflwyno gan aelodau o'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Dyma'r pecynnau hyfforddiant craidd sy'n cael eu cyflwyno ar ddyddiadau penodol yn ystod y flwyddyn academaidd. Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd ym mhob cwrs.

Teitl y Cwrs	Disgrifiad	Dull Cyflwyno	Cynulleidfa darged	Dyddiadau cyflwyno		
				Tymor yr Hydref	Tymor y Gwanwyn	Tymor yr Haf
Hyfforddiant Ymateb i Ddigwyddiadau Critigol	Bydd y cwrs yma yn helpu i wella dealltwriaeth uwch arweinwyr o natur digwyddiadau critigol, protocolau ar gyfer ymateb a strategaethau i gefnogi lles emosiynol eich cymunedau ysgol yn dilyn Digwyddiad Critigol.	Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Penaethiaid ac Uwch Reolwyr	Dd/B	4 Chwefror 9:30-13:00	15 Mehefin 9:30-13:00
Colled a Phrofedigaeth Hyfforddi'r Hyfforddwr	Bydd y cwrs yma yn rhoi'r sgiliau i staff a fydd yn eu galluogi i hwyluso rhaglen colled a phrofedigaeth wyth wythnos ar gyfer plant 10-14 oed sy'n rhoi cyfle i bobl ifainc wneud synnwyr o'r profiadau yma mewn amgylchedd cefnogol gydag eraill sydd wedi mynd trwy newidiadau tebyg. <i>Rhaid i 2 aelod o staff yr ysgol ddod i'r hyfforddiant.</i>	3 x Hyfforddiant Hanner Diwrnod (yn cynnwys deunydd wedi'i recordio ymlaen llaw)	Pob aelod o staff (2 fesul ysgol)	Dd/B	15 Mawrth 1pm-2.30pm 23 Mawrth 9.30-11am	9 Mehefin 9.30-11am 16 Mehefin 9.30-11am
Colled a Phrofedigaeth	Bydd yr hyfforddiant yma'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth cyfranogwyr o ddamcaniaethau colled a phrofedigaeth a sut i fod yn gefn i blant a phobl ifainc mewn profedigaeth yn yr ysgolion.	Hyfforddiant 1.5 awr a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Pob aelod o staff	Hyfforddiant Cohort 1 03.11.2021 9:30 - 11:30am	Sesiwn ddilynol Cohort 1 13.01.2022 3pm-4pm Hyfforddiant Cohort 2 02.03.2022 9.30-11am	Sesiwn ddilynol Cohort 2 12.05.2022 3pm-4pm

<p>Osgoi'r Ysgol ar sail Emosiynol</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n ymdrin â sut mae osgoi'r ysgol ar sail emosiynol yn datblygu yn ogystal ag archwilio ystod o gamau syml y gall staff eu cymryd, ochr yn ochr â theuluoedd, i gynorthwyo plant i ddychwelyd i'r ysgol ac ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ystyrlon.</p>	<p>Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. (yn cynnwys deunydd wedi'i recordio ymlaen llaw) Wyneb yn wyneb / Ar-lein</p>	<p>Pob aelod o staff</p>	<p>Dd/B</p>	<p>08/02/2022 - 9.30-12.30 & Sesiwn gydgrynhoi 1 awr 06/04/2022 - 10-11</p>	<p>10/05/2022 - 9.30-12.30 & Sesiwn gydgrynhoi 1 awr 06/06/2022 - 10-11</p>
<p>Asesiad Dynamig</p>	<p>Bydd y cwrs yma'n ymdrin â'r damcaniaethau sy'n sail i Asesu Dynamig (AD) ac yn ystyried rhai o'r cysyniadau a'r dulliau sylfaenol allweddol sy'n ymwneud â rhoi AD ar waith mewn ysgol.</p>	<p>Hyfforddiant 1.5 awr a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein</p>	<p>Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol</p>	<p>Dd/B</p>	<p>1 cohort</p>	<p>1 cohort</p>
<p>Datblygu Dull Ysgol Gyfan tuag at Les, a Chyflwyniad i Fframwaith PERMA (Emosiynau, Ymgysylltu, Perthnasau, Ystyr a Chyflawniad Cadarnhaol)</p>	<p>Mae'r hyfforddiant yma'n archwilio'r ystyriaethau allweddol i ysgolion mewn perthynas â darparu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles emosiynol.</p>	<p>Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein</p>	<p>Pob aelod o staff</p>	<p>Hyfforddiant Cohort 1 29.10.2021 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Un 10.12.2021 10am-11am</p>	<p>Dd/B</p>	<p>Hyfforddiant Cohort Dau 29.04.2022 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Dau 10.06.2022 10am-11am</p>
<p>PACE</p>	<p>Mae'r hyfforddiant yma'n cyflwyno cyfranogwyr i Fodel PACE (chwareusrwydd, derbyniad, chwilfrydedd, empathi) ar gyfer</p>	<p>Hyfforddiant 1 diwrnod a sesiwn</p>	<p>Pob aelod o staff</p>			

	adeiladu perthynas a ddatblygwyd gan Dan Hughes. Mae'n helpu oedolion i fod yn gefn i blant a phobl ifainc sydd efallai wedi wynebu anawsterau yn gynnar mewn bywyd, a ffurfio perthynas ddiogel gyda nhw.	ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein				
Hyfforddiant Emosiynau	Mae'r hyfforddiant yma'n cyflwyno Hyfforddiant Emosiynau fel dull perthynol o reoleiddio emosiynau mewn plant a phobl ifainc a dod i ben â ffrwydradau ymddygiadol. Mae'r cwrs yn cynnwys: beth yw Hyfforddiant Emosiynau, sut i ddefnyddio Hyfforddiant Emosiynau a ble a phryd i ddefnyddio Hyfforddiant Emosiynau.	Hyfforddiant 1 diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Pob aelod o staff			
Dulliau sy'n Canolbwyntio ar Atebion	Mae'r cwrs yma'n darparu trosolwg damcaniaethol o Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Atebion (SFBT) a'i dechnegau sylfaenol. Bydd cyfranogwyr yn archwilio'r defnydd o ddulliau sy'n Canolbwyntio ar Atebion gyda disgyblion unigol a systemau ysgol.	Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Pob aelod o staff		Hyfforddiant Cohort Un 18.03.2022 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Un 01.03.2022 10am-11am	Hyfforddiant Cohort Dau 03.06.2022 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Dau 24.06.2022
Ymholi Gwerthfawrogiol	Mae'r cwrs yma'n cyflwyno Ymchwilio Gwerthfawrogiol (AI) fel dull cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau tuag at ddatblygu arweinyddiaeth a newid sefydliadol.	Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd.	Carfan yr Uwch Reolwyr	Dd/B	Hyfforddiant Cohort Un 21.01.2022 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Un 04.03.2022 10am-11am	Hyfforddiant Cohort Dau 20.05.2022 9.30-12pm Sesiwn Ddilynol Cohort Dau 01.07.2022 10am-11am

Pwysigrwydd Cwsg	Mae'r cwrs yma'n ymdrin â damcaniaethau a chysyniadau seicolegol allweddol sy'n sail i bwysigrwydd cwsg i ddatblygiad seicolegol iach a'r gweithrediad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol gorau posibl.	Hyfforddiant Hanner Diwrnod a sesiwn ddilynol awr o hyd. Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Pob aelod o staff	18.10.2021 9.30-12.00	Dd/B	1 cohort
Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol: Canllawiau Arfer Gorau	Bydd y sesiwn yn rhoi gwybodaeth, awgrymiadau a chngor pwysig ar y ffordd orau o gyflwyno'r ymyriad Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol mewn ysgolion.	Hyfforddiant Hanner Diwrnod Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Rheolwyr Llinell Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol a Charfan yr Uwch Reolwyr	12.11.2021 9.30-12pm	04.02.2022 9.30-12pm	Dd/B
Llythrennedd Emosiynol: Oedran Ysgol	Mae'r prosiect Llythrennedd Emosiynol 6 diwrnod wedi'i ddylunio i wella gallu ysgolion i fod yn gefn i anghenion emosiynol eu disgyblion o fewn eu hadnoddau eu hunain. Mae'n cydnabod bod plant a phobl ifainc yn dysgu'n well ac yn hapusach yn yr ysgol os yw eu hanghenion emosiynol yn cael sylw hefyd.	Hyfforddiant 6 Diwrnod Wyneb yn wyneb / Ar-lein	Cynorthwywyr Dysgu / Cynorthwywyr Cynnal Dysgu	1 cohort	1 cohort	1 cohort

Mae modd i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg gyflwyno'r Cysriau Canlynol ond bydd angen eu trafod gyda'r gwasanaeth yn rhan o ddarparu gwasanaeth Cam B. Mae modd cyflwyno'r rhain fel sesiynau HMS neu sesiynau gyda'r hwyr fel sy'n briodol. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg i gael rhagor o wybodaeth ac i drafod trefniadau hyfforddi.

Teitl y Cwrs	Disgrifiad	Dull Cyflwyno	Cynulleidfa Darged
Awtistiaeth Sylw Blynnydoedd Cynnar	Mae Awtistiaeth Sylw yn ddull dysgu sy'n ceisio datblygu sgiliau cyfathrebu naturiol a digymell mewn plant ag awtistiaeth trwy ddefnyddio gweithgareddau gweledol sy'n llawn cymhelliant.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Homunculi (Therapi Ymddygiad Gwybyddol ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig)	Mae Dull Homunculi at Les Cymdeithasol ac Emosiynol yn rhaglen Therapi Ymddygiad Gwybyddol hyblyg ar gyfer Pobl Ifanc Awtistig sy'n meithrin gwytnwch cymdeithasol ac emosiynol.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Therapi Lego	Mae therapi wedi'i seilio ar LEGO® yn fwy na dim ond chwarae gyda brics aml-liw. Mae'n rhaglen datblygiad cymdeithasol sy'n helpu plant a phobl ifanc i gyfathrebu ag eraill ac mae modd ei defnyddio gyda phlant sydd ag ystod eang o anghenion cyfathrebu, datblygiadol ac iechyd emosiynol. Eu helpu i uniaethu â'r byd o'u cwmpas, a chael eu tywys i fynd i'r afael â'u problemau a'u datrys.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Theori ac Ymarfer Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	Bwriad y cwrs yma yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i gyfranogwyr sy'n ymwneud ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Mae'r gweithgareddau fydd yn cael eu cynnwys yn annog myfyrdodau cyfranogwyr y mae modd eu rhoi ar waith yn ymarferol.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Cylch o Ffrindiau	Mae Cylch o Ffrindiau yn ddull sy'n helpu disgyblion sydd mewn perygl o deimlo'n ynysig neu gael eu hanwybyddu gan ddisgyblion eraill. Bydd y cwrs yma'n cyflwyno cyfranogwyr i ddull Cylch o Ffrindiau ac yn egluro sut i ddatblygu rhwydwaith gefnogol o	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff

	amgylch unigolion yng nghymuned yr ysgol sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol.		
Seicoleg Adnabod a Pherthnasoedd	Mae'r cwrs yma'n darparu dealltwriaeth eang o ymchwil mewn meddwl cymdeithasol, hunaniaeth, dylanwad, perthnasoedd ac ymddygiad rhwng grwpiau gwahanol.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Gwrando Gweithredol a Sgiliau Cyfathrebu	Bydd yr hyfforddiant yma'n archwilio'r ffyrdd rydyn ni'n gwrandao ac yn cyfathrebu, gydag esboniad damcaniaethol o 'wrandao gweithredol', a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wrandäwr gweithredol. Mae'r hyfforddiant yn tynnu sylw at sut y gall gwell cyfathrebu a gwrandao gael effaith gadarnhaol ar eich swydd yn ogystal â'ch perthnasoedd ag eraill.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Deall Ymlyniad a Thrawma	Bydd y cwrs hyfforddiant yma yn eich cyflwyno i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i theori ymlyniad a thrawma o ran plant a phobl ifainc. Nod y cwrs yw datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth cyfranogwyr o sut mae trawma ac ardduliau ymlyniad yn datblygu, sut y gallai hyn effeithio ar blant a phobl ifainc, a darparu ffyrdd i'w cynorthwyo.		Pob aelod o staff
Swyddogaeth y Cof wrth Ddysgu	Mae'r cof yn hanfodol i adeiladu dysgu. Bydd y cwrs yma'n archwilio'r gwahanol fathau o gof a'r rhan y mae pob un yn ei chwarae o ran dysgu.	I'w drafod gyda'r Ysgol	Pob aelod o staff
Seicoleg Cymhelliant	Bydd y cwrs hyfforddiant yma'n eich cyflwyno i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i seicoleg cymhelliant. Archwilio'r gwahanol fathau o gymhelliant a sut mae pobl yn cael eu cymell.	I'w drafod gyda'r Ysgol	All staff

Mae'r cyrsiau hyfforddiant canlynol i gyd yn Hyfforddiant Fideo E-Ddysgu sy'n cael eu cynnal ar RCT Source. Mae'r rhain am ddim i holl staff yr ysgol ac mae modd eu cyrchu ar unrhyw adeg (mae'r cyrsiau'n amrywio o ran hyd). Mae'r themâu isod yn seiliedig ar wahanol feysydd iechyd meddwl a lles.

Teitl y Cwrs	Disgrifiad	Dull Cyflwyno	Cynulleidfa Darged
Glasoed DNA-V	Yn y modiwl e-ddysgu yma byddwch chi'n ennill dealltwriaeth o DNA-V: model ieuencid ar weithredu ac ymwybyddiaeth ofalgar ochr yn ochr â seiliau seicolegol y model DNA-V. Mae'r fideo hyfforddi yma hefyd yn archwilio sut mae dulliau eraill fel therapi derbyn ac ymrwmo ac ymwybyddiaeth ofalgar yn cydgysylltu wrth ddefnyddio DNA-V gyda phobl ifainc.	Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source	Pob aelod o staff
Pryder a Therapi Ymddygiad Gwybyddol	Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n cyflwyno'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i bryder a Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT). Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol i'ch cynorthwyo chi yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc.	Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source	Pob aelod o staff
Lles Staff	Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n eich helpu i ddeall a gofalu am eich lles eich hun. Archwilio a myfyrio ar eich meddyliau a'ch gweithredoedd eich hun o ran gwaith. Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau a thechnegau hunanofal.	Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source	Pob aelod o staff

Mae'r cyrsiau hyfforddiant canlynol i gyd yn Hyfforddiant Fideo E-Ddysgu sy'n cael eu cynnal ar RCT Source. Mae'r rhain am ddim i holl staff yr ysgol ond maen nhw'n canolbwyntio ar wella sgiliau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol cymwys. Mae modd cyrchu'r rhain ar unrhyw adeg (mae'r cyrsiau'n amrywio o ran hyd).

Teitl y Cwrs	Disgrifiad	Dull Cyflwyno	Cynulleidfa Darged
--------------	------------	---------------	--------------------

<p>Seicoleg Cysyniadoli Personol</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n eich cyflwyno chi i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i Seicoleg Cysyniadoli Personol (PCP). Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol i'ch cynorthwyo chi yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Dulliau Drama ar gyfer Llythrennedd Emosiynol</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol sy'n defnyddio drama, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae'r therapydd drama Rosie Bufton yn trafod manteision defnyddio dulliau drama wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Dulliau Dawns a Symud ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n cyflwyno'r prif syniadau a damcaniaethau ynghylch Therapi Symudiad Dawns (DMT). Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o gymwysiadau ymarferol i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Dulliau loga ar gyfer Llythrennedd Emosiynol</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gan ddefnyddio loga, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae Michael Chissick yn dangos manteision defnyddio loga wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol</p>	<p>Bydd yr adran yma'n rhoi gwell dealltwriaeth i chi o swyddogaeth y Seicolegydd Addysg a sut rydyn ni'n darparu ein gwasanaeth i roi cymorth i ysgolion.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Defnyddio Offerynnau Cerdd i Roi Cymorth i Blant a Phobl Ifainc</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gan ddefnyddio offerynnau cerdd, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>

<p>Cyflwyniad i 'Biophilia' a Dulliau Dysgu yn yr Awyr Agored</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n rhoi cyflwyniad i chi i brif syniadau a damcaniaethau Biophilia a sut i ymgorffori dulliau dysgu yn yr awyr agored yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>
<p>Defnyddio Straeon i Feithrin Llythrennedd Emosiynol</p>	<p>Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n rhoi cyflwyniad i chi i'r prif syniadau a damcaniaethau y tu ôl i adrodd straeon fel ffordd o ddatblygu llythrennedd emosiynol mewn plant a phobl ifainc. Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o ffyrdd y mae'n berthnasol yn y byd go iawn i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc.</p>	<p>Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source</p>	<p>Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff</p>